

# Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau)

Nod y gronfa hon yw cryfhau gwytnwch rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchoddedig, gan gefnogi adferiad natur wrth fynd ati i annog y gwaith o ymgysylltu â'r gymuned.

Diweddarwyd yr arweiniad hwn ddiwethaf ar 28 Chwefror 2023. [Gweler yr holl ddiweddariadau.](#)

## Pwysig

Nid yw Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau) yn derbyn ceisiadau bellach.

[Gweld pa ariannu sydd ar gael gennym.](#)

## Trosolwg

Dyma rownd dau o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur.

Fel elfen allweddol o ran darparu'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, nod y Gronfa Rhwydweithiau Natur yw gwella cyflwr a gwydnwch **rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchoddedig**.

Bydd gwella cyflwr y safleoedd gwarchoddedig a chysylltiedig hyn yn eu galluogi i weithredu'n well fel **rhwydweithiau natur**. Mae rhwydweithiau natur yn ardaloedd hanfodol, gwydn lle gall cynefinoedd a rhywogaethau ffynnu ac ehangu. Bydd adfer cysylltedd yn y rhwydweithiau hyn yn:

- atal dirywiad pellach mewn rhywogaethau a chyflwr cynefinoedd
- cefnogi adfer natur
- gwella'r gallu i addasu i'r argyfwng hinsawdd

Bydd y gronfa hon hefyd yn cefnogi cyfranogiad gweithredol cymunedau mewn safleoedd gwarchoddedig ac o'u hamgylch. Mae gan gryfhau ymgysylltiad â byd natur fuddion iechyd a llesiant uniongyrchol i bobl, yn ogystal â gwella gwytnwch y safleoedd eu hunain.

Mae diogelu safleoedd yn ddibynnol ar sefydliadau cryf a llywodraethu da. Felly, bydd **rownd dau** o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn **cefnogi adeiladu capasiti yn ychwanegol**, gan gynnwys: gwytnwch ariannol, ymgysylltu â'r gymuned, hyfforddiant a rhaglenni prentisiaeth a gwaith cynhwysiant.

## Beth yw'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig?

Mae'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd Eraill o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). I weld a yw tir neu fôr wedi'i gynnwys yn y diffiniad hwn, [ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru](#) a gwefan [MapDataCymru](#).

## Terfynau amser ymgeisio

Grantiau rhwng £30,000 a £250,000: **12pm, 19 Hydref 2022**

Grantiau rhwng £250,000 a £1 miliwn:

- dyddiad cau Mynegi Diddordeb gorfodol (EOI): **12pm ar 21 Medi 2022**
- dyddiad cau ar gyfer ymgeisio: **12pm, 7 Rhagfyr 2022**

[Ar ôl ichi ddarllen y canllawiau isod, ewch i'n porth ymgeisio](#)

Expand All accordions

## Amcanion y gronfa

Drwy rownd dau o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, rydym am gefnogi:

- Gweithredu ar safleoedd gwarchoddedig neu gysylltiedig sydd o fudd penodol i reoli cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs). Dylai hefyd ddangos rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ledled Cymru. Gall hyn gynnwys gweithredu y tu allan i safleoedd gwarchoddedig fydd o fudd i'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd.
- Gwelliannau ar safleoedd gwarchoddedig neu eu safleoedd cysylltiedig y mae cymunedau lleol yn gallu cymryd rhan weithredol ynddynt, ac elwa ohonynt. Nod fyddai cefnogi ymwneud gweithredol ag amrywiaeth amrywiol o bobl a chymunedau (grwpiau heb eu gwasanaethu yn enwedig) i gynyddu'r rhwydwaith o bobl sy'n ymwneud â natur, a chyda meithrin gwydnwch eu hecosystemau lleol.
- gweithgarwch sy'n caniatáu i sefydliadau feithrin eu gallu, datblygu eu gwytnwch a chyrraedd cymunedau heb eu gwasanaethu

Expand All accordions

## Pwy all ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i bob unigolyn a mudiad sy'n gweithio gyda threftadaeth naturiol yng Nghymru. Darperir hyn bod gennych y caniatâd, y trwyddedau a'r hawliau cywir yn eu lle i ymgymryd â gweithgarwch ar y rhwydwaith safle gwarchoddedig neu'r ardaloedd cyfagos. Mae'n

rhaid i'r safle/tir rydych chi'n ei wella fod yng Nghymru, ond gallwch chi/eich sefydliad fod wedi'ch lleoli yn unrhyw le yn y DU.

Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n briodol i waith prosiect ddigwydd yng Nghymru ond nid ar safleoedd gwarchoddedig. Er enghraifft, mewn prosiectau lle mae'r ffocws ar hyfforddiant a phrentisiaethau, efallai y bydd hyfforddeion yn gweithio ar wahanol safleoedd, ond gallai'r sgiliau y maent yn eu datblygu fod o fudd i'r sector cyfan yn ddiweddarach yn eu gyrfaoedd. Yn yr achosion hyn, eich cyfrifoldeb chi yw dangos y gwerth y bydd eich prosiect yn ei roi i'r rhwydwaith safle gwarchoddedig yn y tymor hir o fewn eich ffurflen gais.

Expand All accordions

## Beth i'w ddisgwyl gan brosiectau

Mae'n rhaid i weithgareddau ddarparu manteision uniongyrchol i'r rhwydwaith safle gwarchoddedig nawr neu yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys:

- gwelliannau'n uniongyrchol ar safle neu ar ardaloedd cyfagos a fydd yn gwella cyflwr nodweddion a chysylltedd safleoedd
- gwelliannau i hygyrchedd safle, neu gefnogi sefydliadau i gyrraedd cymunedau heb wasanaethu
- cefnogi sefydliadau neu unigolion sydd (neu a fydd yn y dyfodol) sy'n gyfrifol am safleoedd. Gallai hyn gynnwys cynllunio, staffio, hyfforddiant, prentisiaethau, cyllid gwyrdd, llywodraethu da, ac ati

Fel ymgeiswyr, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn ymwybodol o'r caniatâd a'r trwyddedau perthnasol i gyflawni eich prosiect, ac yn gweithio tuag at gael.

Bydd disgwyl i chi ddangos bod eich prosiect arfaethedig yn cyflawni yn erbyn amcanion rheoli neu amcanion cadwraeth ar gyfer y safle perthnasol.

Byddwn yn gobeithio ariannu cyfuniad o weithgaredd cyfalaf a refeniw ar draws portffolio o brosiectau. Er mwyn deall mwy, cyfeiriwch at yr adran o fewn y canllawiau hyn o'r enw 'Paratoi eich cais'.

Expand All accordions

## Dyddiadau allweddol

Rhaglen yn agor **18 Awst 2022**.

### Grantiau rhwng £30,000 a £250,000

- dyddiad cau ymgeisio: **12pm, 19 Hydref 2022**

- hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau ym mis **Ionawr 2023**
- mae'n rhaid i brosiectau fod wedi eu cwblhau erbyn **31 Mawrth 2025**

## Grantiau rhwng £250,000 ac £1miliwn

- dyddiad cau mynegiant o ddiddordeb gorfodol: **12pm ar 21 Medi 2022**
- gwahoddir ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar lwyfan mynegiant o ddiddordeb i gyflwyno ceisiadau llawn erbyn **5 Hydref 2022**
- dyddiad cau ar gyfer ymgeisio: **12pm, 7 Rhagfyr 2022**
- ymgeiswyr wedi cael gwybod am benderfyniadau ym mis **Mawrth 2023**
- mae'n rhaid i'r prosiectau fod wedi'u cwblhau erbyn **31 Mawrth 2026**

Expand All accordions

## Paratoi eich cais

### Pa gostau allwch chi ymgeisio amdany'n nhw?

Mae'n bwysig eich bod yn nodi pa un o gostau eich prosiect sy'n gyfalaf a pha rai sy'n refeniw. Gall ceisiadau gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

#### Costau cyfalaf

- prynu eitemau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rheoli tir, megis coed, planhigion gwrychoedd, ffensio ac eitemau gwaith cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau
- costau cyffredinol a dynnwyd wrth osod y gwaith cyfalaf, sy'n cynnwys costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio offer
- prynu peiriannau ac offer hyd at werth y farchnad yr ased
- prynu, dylunio a gosod paneli dehongli (a chostau cyfieithu)
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau a nodau masnach
- ffioedd ymgynghorol a phensaer, costau dylunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol megis ffioedd sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd
- ffioedd a chostau ymgeisio cynllunio. Mae ffioedd sydd ynghlwm am ganiatâd statudol, trwyddedau a hawliau yn gymwys, ar yr amod eu bod yn hanfodol ar gyfer darparu'r prosiect cyfalaf. Gellir ysgwyddo'r rhain cyn dechrau'r prosiect ond rhaid mynd i'r fei ar ôl 18 Awst 2022, a rhaid dangos tystiolaeth yn yr un ffordd â gwariant arall.
- arian wrth gefn ar gyfer costau cyfalaf ychwanegol. Rydym yn argymhell bod hyn tua 10% o'ch costau cyfalaf.
- cyllid chwyddiant i ganiatáu cynnydd mewn costau ym mlynnyddoedd o ddarparu prosiectau yn y dyfodol

## Costau refeniw

- Amser staff
- Adfer cost lawn neu gostau sefydliadol craidd tuag at gyflwyno prosiectau
- Costau gweithgaredd (digwyddiadau, lluniaeth, etc)
- Llogi ystafelloedd
- gwerthusiad
- Cynllunio, er enghraifft cynllunio busnes,
- Adolygiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, cyfleoedd ariannu gwyrdd
- Hyfforddiant, costau prentisiaethau
- Costau cyfieithu
- Cyllid wrth gefn ar gyfer costau refeniw ychwanegol. Rydym yn argymhell bod hyn tua 10% o'ch costau refeniw.

Efallai na fyddwch yn cynnwys costau yn y dyfodol ar gyfer cynnal a chadw parhaus na chostau cynnal y tu hwnt i hyd y prosiect.

## Y Gymraeg

Mae'n rhaid i chi ystyried yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith a dweud wrthym sut y byddwch yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn cynnig darpariaeth ddwyieithog yng nghyllideb eich prosiect a'ch cynllun. Dylech gynnwys y gyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn adran costau'r prosiect o'r ffurflen gais.

Os hoffech fwy o wybodaeth am sut i wneud hyn, darllenwch fwy yn ein [canllawiau ar gyfer cyflwyno project dwyieithog Cymraeg](#). Gallwch gysylltu hefyd â'n tîm cymorth Cymraeg drwy e-bost: [cymorthcymraeg@heritagefund.org.uk](mailto:cymorthcymraeg@heritagefund.org.uk)

## Dogfennau ategol

Mae'n rhaid uwchlwytho'r dogfennau ategol canlynol gyda'ch ffurflen gais. Dylai maint y ffeil fod yn llai na 20MB. **Sylwer** bod rhai o'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn y ffurflen gais ar-lein.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae angen y dogfennau canlynol:

- dogfen lywodraethol (gorfodol os oes gan eich sefydliad un)
- cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu dilysu (gorfodol os ydych chi'n sefydliad)
- cynllun prosiect (gorfodol i bob prosiect) a'r gofrestr risg (gorfodol ar gyfer ceisiadau mwy na £250,000) – [gallwch lawrlwytho templed o'n tudalen cynllun prosiect](#)
- cytundeb partneriaeth (gorfodol, os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)
- disgrifiadau swydd (gorfodol, os ydych chi'n creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o'ch prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith comisiwn (os yn berthnasol)

- o leiaf un map yn dangos lleoliadau gwaith cyfalaf (gorfodol ar gyfer ceisiadau mwy na £250,000. uwchlwythwch hyn o dan 'Delweddau')
- delweddau i ddangos eich cais (dewisol)
- cyfrifo adfer costau llawn (os yn berthnasol)
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos o gefnogaeth (dewisol)
- Llif arian (gorfodol ar gyfer ceisiadau mwy na £250,000. Dylid manylu ar hyn am y flwyddyn gyntaf ac amlinelliad am flynyddoedd yn olynol.)
- Strwythur rheoli prosiectau (sy'n orfodol i geisiadau ceisiadau mwy na £250,000 Dylai hyn amlinellu eich strwythur rheoli prosiectau fel ein bod yn gwybod pwy fydd yn gwneud penderfyniadau a sut y byddwch chi'n rheoli newid yn ystod eich prosiect.)
- Dadansoddiad cost manwl (gorfodol ar gyfer ceisiadau mwy na £250,000. Taenlen sy'n manylu ar y dadansoddiad costau yn y Prosiect yn costio adran o'r cais. Costau ar wahân i Cyfalad a Refeniw)
- Mae'r brif ddogfen risgiau ar gyfer ar ôl cwblhau'r prosiect (yn orfodol ar gyfer ceisiadau mwy na £250,000. Pe bai'n amlinellu'r prif risgiau sy'n wynebu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau a sut y byddant yn cael eu rheoli.)

Nid oes angen dogfennau ategol ar gyfer **Mynegiant o Ddiddordeb**.

## **Gofynion perchnogaeth trydydd parti**

Gall tir eich prosiect (a allai gynnwys gwahanol leiniau o dir dros ardal eang) fod yn eiddo i drydydd parti neu nifer o drydydd partiön (gan gynnwys perchnogion preifat). Os felly, dylid rhoi cytundebau cyfreithiol yn eu lle rhyngoch chi a phob perchennog tir.

Nid oes ffurf ragnodedig o gytundeb, ond mae gennym ofynion penodol a ddylai gael eu cynnwys mewn unrhyw gytundebau perchennog tir trydydd parti. O leiaf, dylai cytundebau perchennog y tir gynnwys y canlynol:

- manylion y partiön
- cadarnhad sut y cedwir y tir (rhydd-ddaliad neu les ddaliad)
- disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau)
- cyfamodau ar ran perchennog y tir i gynnal y tir a darparu mynediad i'r cyhoedd yn unol â thelerau'r grant (fel y bo'n berthnasol)
- darpariaeth y dylai unrhyw waredu ymlaen fod yn ddarostyngedig i gytundeb trydydd parti
- y bydd y cytundeb yn para o ddechrau'r gwaith ar dir trydydd parti tan 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect

Bydd angen i chi ddarparu copïau o gytundebau'r tirlfeddiannwyr i ni er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Bydd angen cwblhau cytundebau perchnogion y tir ac yn eu lle cyn i arian grant gael ei ryddhau ar gyfer gwaith ar bob llain o dir sy'n eiddo i drydydd parti. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r perchennog ymrwymo i'n telerau ac amodau.

Gallwch gynnwys costau addasu a sefydlu unrhyw gytundebau trydydd parti, gan gynnwys cost cymryd cyngor cyfreithiol, fel rhan o'r costau yn eich cais.

## **Trwyddedau, caniatâd a hawliau**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos yn eu cais eu bod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gweithio tuag at gael, y caniatâd a'r trwyddedau perthnasol i gyflawni eu prosiect.

## Arian cyfatebol

Nid oes gofynion am arian parod na chyfraniadau nad ydynt yn arian parod ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau). Fodd bynnag, gall unrhyw arian parod, heb fod yn arian parod neu gyfraniadau gwirfoddol rydych chi'n eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael ei ystyried wrth asesu.

Gan fod y rhaglen hon yn cynnwys arian y Loteri Genedlaethol, efallai na fyddwch yn defnyddio'r grant yma fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, neu i'r gwrthwyneb. Gallwch ddefnyddio ffynonellau eraill sy'n cyfateb i gyllid gan gynnwys rhaglenni cyllid eraill gan Lywodraeth Cymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru, a dylech gynnwys y rhain ar eich ffurflen gais.

## Gwerthusiad

Rydym yn argymhell eich bod yn ystyried gwerthusiad o ddechrau eich prosiect. Mae prosiectau sydd wedi cyllidebu'n fwy gofalus ar gyfer eu gwerthusiad, yn darparu adroddiad terfynol o safon well. Rydym wedi argymhell isafswm gwariant ar werthuso. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn ein [canllawiau gwerthuso](#).

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn disgwyl i chi gyflwyno adroddiad gwerthuso. Mae angen cyflwyno hyn cyn i ni dalu'r 10% olaf o'ch grant. Dylai hyn gynnwys manylion sut mae gwynwch ecosystemau a/neu gysylltedd cynefinoedd wedi elwa (neu y bydd yn elwa yn y dyfodol) o'r buddsoddiad. Dylech rannu data a methodoleg monitro perthnasol.

Expand All accordions

## Gweminarau cyngor cyn ymgeisio a gweithdai

Cynhaliwyd gweminar cyn ymgeisio ddydd Mawrth 23 Awst. Roedd hwn yn gyfle i glywed am flaenoriaethau rhwydweithiau natur (rownd dau) a chael ateb eich cwestiynau.

Byddwn hefyd yn cynnal gweithdai galw heibio llai ym mis Medi a Hydref. Nod y rhain yw darparu cyngor un-i-un wrth i chi ddatblygu eich cais. [Dysgwch ragor am sut i gofrestru](#).

Expand All accordions

## Sut i ymgeisio

**Grantiau o £30,000 i £250,000**

Ar gyfer grantiau rhwng £30,000 a £250,000, [gallwch wneud cais cyn gynted ag y byddwch yn barod](#). Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **12pm, 19 Hydref 2022**.

Sichrewch eich bod yn darllen [nodiadau cymorth cais](#) i nodi'n ofalus a gwirio eich bod yn gymwys i wneud cais. Dylai'r nodiadau cymorth hyn ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud cais.

**Sylwer:** Mae'r Gronfa Treftadaeth yn defnyddio'r un ffurflenni cais ar draws amrywiaeth o'n rhaglenni. Mae angen ateb rhai cwestiynau'n wahanol i'r rhaglen hon, felly rhaid darllen y [nodiadau cymorth cais](#) yn ofalus i ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen ble. **Peidiwch â defnyddio'r** eiconau cymorth sydd wedi'u hymgorffori yn y ffurflen ar-lein.

Rydym wedi cynllunio'r broses ymgeisio i fod mor syml â phosibl ac rydym yn gofyn am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom yn unig.

[Pan fyddwch yn barod, gwnewch gais am grantiau rhwng £30,000 a £250,000](#)

## Grantiau o £250,000 i £1miliwn

Mae ein proses ymgeisio yn gystadleuol ac ni allwn ariannu pob cais o ansawdd da a dderbyniwn.

Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n mynd i baratoi cais, ac i roi'r cyfle gorau posibl i chi, gofynnwn i'r holl ymgeiswyr am grant rhwng **£250,000 ac £1miliwn** i gwblhau **ffurflen Mynegi Diddordeb byr (EOI)**. Cyfeiriwch at ein [nodiadau cymorth Mynegiant o Ddiddordeb](#) i gael rhagor o wybodaeth am sut i gwblhau eich ffurflen.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich Mynegiant o Ddiddordeb erbyn y dyddiad cau o **12pm, 21 Medi 2022**.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu i benderfynu a ydych yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai peidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n nodi ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynol.

Rydym yn anelu at ymateb i'ch Mynegiant o Ddiddordeb o fewn 10 diwrnod gwaith.

Os yw eich Mynegiant o Ddiddordeb yn llwyddiannus, byddwn yn darparu arweiniad ychwanegol ar sut i gwblhau eich cais llawn. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cais llawn erbyn y dyddiad cau, sef **12pm, 7 Rhagfyr 2022**.

[Pan fyddwch yn barod, cyflwynwch ffurflen Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer grantiau rhwng £250,000 ac £1m](#)

## Y ffurflen gais yn llawn

Bydd ein ffurflenni cais am grantiau mwy na £250,000 yn cael eu rhyddhau i chi ar borth gwahanol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn dolen i'r porth yma drwy e-bost. Dilynwch y ddolen honno yn hytrach na mewngofnodi i'n porth arferol.

Expand All accordions



## Nodiadau cymorth ymgeisio a thempledi

- [nodiadau cymorth ymgeisio am grantiau rhwng £30,000 a £250,000](#)
- [nodiadau cymorth Mynegi Diddordeb ar gyfer grantiau rhwng £250,000 ac £1 miliwn](#)
- [arweiniad derbyn grant](#)

Am grantiau rhwng £30,000 a £250,000 mae angen i chi gyflwyno cynllun prosiect gyda'ch cais. Cyfeiriwch at ein [tudalen cynllun prosiect](#) i adolygu a lawrlwytho ein templed.

Expand All accordions

## Ar ôl ichi ymgeisio

### Asesu eich cais

Ar ôl anfon eich cais ar-lein atom, byddwn yn gwirio bod popeth yn ei le a byddwn yn cysylltu i roi gwybod i chi os oes angen unrhyw fanylion pellach arnom. Oni bai bod angen i ni wirio unrhyw beth gyda chi, mae'n annhebygol y byddwch yn clywed gennym eto nes i ni roi gwybod i chi am y penderfyniad.

Byddwn yn asesu ceisiadau cymwys ar y meini prawf canlynol:

- cyfraniad at adferiad natur safleoedd gwarchoddedig yng Nghymru
- ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl mewn natur
- nifer y swyddi/prentisiaethau/hyfforddeiaethau a gynigir, yn enwedig i bobl ifanc
- sicrhau gwerth am arian
- dangos cynaliadwyedd hirdymor
- lledaeniad daearyddol o brosiectau ledled Cymru
- cyfuniad o brosiectau cyfalaf a refeniw ar draws y portffolio

### Meini prawf

Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau o ansawdd da nag y gallwn eu hariannu, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau a fydd:

- gweithio yn ein [ardaloedd ffocws](#) neu ardaloedd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhwydweithiau Blaenoriaeth Ecolegol a nodwyd o dan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur
- cynrychioli lledaeniad daearyddol ar draws Cymru ac ar draws yr holl [Rwydweithiau Natur \(rownd un\)](#) a phrosiect rownd dau
- darparu ymgysylltu cyhoeddus gweithredol â natur

### Os ydych yn llwyddiannus

Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr am £30,000 i £250,000 o'n penderfyniadau ym mis Ionawr 2023, ac ar gyfer **£250,000 i £1m ym mis Mawrth 2023**. Byddwn yn darparu canllawiau ychwanegol ar ein gofynion monitro ac amodau cyfreithiol bryd hynny.

Telir pob grant o dan £100,000 mewn tri rhandaliad. Byddwch yn derbyn 50% o'ch grant wedi i chi gael caniatâd i ddechrau eich prosiect. Byddwch yn derbyn y 40% nesaf ar ganolbwynt eich prosiect, pan fydd y 50% cyntaf wedi cael ei wario. Rydym yn atal y 10% olaf o'ch grant nes bod y prosiect wedi'i gwblhau.

Telir grantiau o £100,000 neu hŷn mewn ôl-ddyledion, mewn rhandaliadau rheolaidd, ar dderbyn tystiolaeth o wariant.

Expand All accordions

## Gwybodaeth ychwanegol

### Rheoli cymhorthdal

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cadarnhau bod ei gais wedi'i ystyried a'i wirio mewn perthynas â rheolau rheoli cymhorthdal.

Ar yr adeg o gyhoeddi'r canllawiau hyn i ymgeiswyr, nid yw cyllid cyhoeddus ar gyfer sefydliadau bellach yn cael ei lywodraethu gan reolau cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd fel y nodir yn Erthygl 107-109 o Gytuniad Swyddogaeth yr Undeb Ewropeaidd a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Yn hytrach, mae'r holl benderfyniadau grant a wneir ar ôl 11pm ar 31 Rhagfyr 2020 yn ddarostyngedig i drefn rheoli cymhorthdal newydd y DU, a nodir yr egwyddorion ym Mhennod 3 (Cymorthdaliadau) Teitl XI (Tegwch yn y Farchnad) Rhan Dau (Masnach, Trafnidiaeth, Pysgodfeydd a Threfniadau Eraill) y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Disgwylir y bydd canllawiau pellach, ymgynghoriad a deddfwriaeth newydd o bosibl yn y maes hwn i adeiladu ar yr egwyddorion hynny. Bydd disgwyl i chi gydymffurfio ag egwyddorion y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau a bodloni unrhyw ofynion yn y dyfodol.

Bydd cytundebau yr ymrwymwyd iddynt yn cael eu hadolygu a'u hamrywio yn unol â hynny. Rydym yn cadw'r hawl i osod gofynion pellach ac amodau ychwanegol mewn perthynas â'r mater hwn.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio a oes angen cymorth gwladwriaethol neu glirio rheolaeth cymhorthdal. Dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol os nad ydynt yn siŷr a fydd angen clirio'r prosiect.

### Gweithio ar dir preifat

Mae llawer o gynefinoedd a rhywogaethau dynodedig yn digwydd ar dir sy'n eiddo i unigolion preifat neu sefydliadau er elw. Gall prosiectau gyflawni gwaith neu weithgareddau ar dir preifat cyn belled â bod unrhyw fudd cyhoeddus yn amlwg yn drech nag unrhyw enillion preifat posibl, ac ar yr amod na dorri'r rheolau rheoli cymhorthdal.

Er enghraifft, gallem ariannu'r gwaith o adfer gwrychoedd neu greu pyllau fferm, ar yr amod nad ydynt yn ychwanegu gwerth ariannol i'r tir nac yn cyfleu unrhyw fudd ariannol anuniongyrchol sylweddol a allai dorri rheolau rheoli cymhorthdal.

Wrth weithio ar dir preifat rydym yn deall y gall fod cyfyngiadau ar fynediad i'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn annog mynediad cyhoeddus pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol. Rydym hefyd yn derbyn efallai na fydd mynediad corfforol bob amser yn briodol nac yn ddymunol am resymau cadwraeth cynefinoedd. Os bydd gwell mynediad yn bosibl, efallai y byddwch hefyd am wneud cais am gyllid ar gyfer seilwaith newydd, er enghraifft llwybrau neu guddfannau, a all helpu i ddarparu ar gyfer mwy o fynediad i'r cyhoedd.

Gall gwaith ddigwydd ar dir sy'n eiddo i un o adrannau'r Llywodraeth neu gorff hyd braich (ALB), ar yr amod nad ydynt yn elwa'n ariannol o unrhyw fuddsoddiad. Pe bai elusen neu bartneriaeth amgylcheddol yn ymgymryd â gwaith ar dir o'r fath, yna dim ond ar gyfer gwaith na fyddai'n dod o dan unrhyw gyfrifoldeb statudol y gall fod.

## Perchnogaeth eiddo

### Tir ac adeiladau ar gyfer gwaith cyfalaf

Mae'n rhaid i chi naill ai fod yn berchen ar y rhydd-ddaliad neu fod gennych brydles sy'n bodloni'r gofynion canlynol:

- **sefydliad nid er elw:** mae'n rhaid i'ch prydles gael 10 mlynedd ar ôl arni ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **perchennog preifat:** mae'n rhaid i'ch prydles gael o leiaf 10 mlynedd ar ôl arni ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **nid ydym** yn derbyn prydles gyda chymalau torri (mae'r rhain yn rhoi un parti neu fwy i'r brydles yr hawl i ddod â'r brydles i ben mewn rhai amgylchiadau)
- **nid ydym** yn derbyn prydles gyda fforffedu ar gymalau ansolfedd (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i'r landlord ddod â'r brydles i ben os yw'r tenant yn troi'n fethdalwr)
- **mae'n rhaid** i chi allu gwerthu ar, morgais, neu is-osod y cyfan neu ran o'ch prydles ond os ydym yn dyfarnu grant i chi, mae'n rhaid i chi gael ein caniatâd yn gyntaf i wneud unrhyw un o'r rhain

### Tir neu adeiladau ym mherchnogaeth trydydd parti

Os yw trydydd parti yn berchen ar y tir (a allai gynnwys partner prosiect) byddwn naill ai'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gofrestru ar eich contract grant yn uniongyrchol gyda ni, neu'n ei gwneud yn ofynnol i chi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gyda'r perchennog.

## Caffael tir neu adeiladau

Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu tir neu adeiladau, mae'n rhaid i chi brynu rhydd-ddaliad iddyn nhw neu gyda phrydles gydag o leiaf 99 mlynedd ar ôl arni.

Expand All accordions

## Cymorth ac adnoddau pellach

- Byddwn yn cynnal **digwyddiadau digidol** er mwyn rhoi cymorth i ymgeiswyr ym mis **Medi 2022**. Byddwn yn cyhoeddi manylion pellach o fewn y canllawiau hyn, felly daliwch ati i wirio'n ôl.
- am gymorth technegol neu gymorth gyda hygyrchedd, cysylltwch â'n tîm gwasanaeth cwsmeriaid drwy e-bost: [enquire@heritagefund.org.uk](mailto:enquire@heritagefund.org.uk)
- [canllawiau arferion da](#): cyngor ar amrywiaeth o bynciau i'ch helpu i gyflawni prosiect o ansawdd uchel, gan gynnwys ein harweiniad ar gynnal gwerthusiad
- [canllawiau natur a thirweddau](#): helpu i ddylunio a chyflwyno prosiectau
- [mae'r datganiadau ardal hyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru](#) yn amlinellu'r heriau a'r mentrau allweddol sy'n digwydd o fewn pob ardal Gymreig
- os oes angen, gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor ar yr amcanion rheoli: ebostiwch [sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:sitesactions@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)
- i gael rhagor o wybodaeth am sut bydd eich data yn cael eu prosesu dan y rhaglen grant hon, edrychwch ar ein [polisi preifatrwydd](#)

Expand All accordions

## Gwneud cwyn

Rydym yn deall y gallech gael eich siomi â phenderfyniad. Nid oes hawl apelio nac ail-wneud cais am Y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau).

Gallwn ond adolygu ein penderfyniad os gallwch gyflwyno cwyn ffurfiol ynglŷn â'r ffordd yr ydym wedi delio gyda'ch cais. Mae gennym broses gwyno dau gam ar gyfer y Gronfa hon. Dim ond os gallwch ddangos hynny y byddwn yn gallu ystyried ac ymchwilio i'r gwyn:

- ni wnaethom ddilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig ar gyfer asesu eich cais
- rydym wedi camdeall rhan sylweddol o'ch cais
- ni wnaethom gymryd sylw o wybodaeth berthnasol

Mae'n rhaid gwneud cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig trwy ebostio [enquire@heritagefund.org.uk](mailto:enquire@heritagefund.org.uk) o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn eich penderfyniad cais. Ein nod yw cydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith.

Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu i ddechrau gan ardal/cyfarwyddwr gwlad o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n annibynnol o argymhelliad a phaneli penderfynu ar gyfer y gronfa hon. Ein nod yw cyfleu penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith o'r adeg y gwnaethoch gyflwyno eich cwyn.

Am gymorth, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 020 7591 6044 neu e-bostiwch [enquire@heritagefund.org.uk](mailto:enquire@heritagefund.org.uk)

## Newidiadau i'r canllawiau yma

Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth y defnyddiwr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau yn ôl y gofyn. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

---

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau) yn cael ei darparu gan y Gronfa Treftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Cronfa  
Treftadaeth**  

---

**Heritage  
Fund**



Mewn Partneriaeth â  
**Llywodraeth Cymru**  
In Partnership with  
**Welsh Government**

---

## Diweddariadau tudalen

- **2 Medi 2022:** Cyhoeddwyd Cwestiynau Cyffredin o'n gweminar cyn ymgeisio a gallwch nawr archebu i fynychu sesiynau galw heibio llai. Mwy o wybodaeth yn adran 'Gweminar cyngor cyn ymgeisio a gweithdai'.
- **14 Medi 2022:** cafodd y dyddiad cau Mynegi Diddordeb ei wthio 'nôl o 20 Medi i 21 Medi 2022 oherwydd g?yl y banc.
- **3 Hydref 2022:** Yn dilyn ein gweithdy galw heibio i ymgeiswyr a gynhaliwyd ar 14 Medi, ychwanegwyd cwestiynau ychwanegol i'r dudalen Cwestiynau Cyffredin. Diweddarwyd y manylion hefyd i gadarnhau dyddiad y gweithdy nesaf.
- **19 Hydref 2022:**
  - Cafodd y rhestr o ddogfennau ategol ei diweddarau i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng gofynion cais Canolig a cheisiadau mwy na £250,000.
  - Ychwanegwyd mwy o wybodaeth i'r adran 'Ar ôl i chi wneud cais' i adlewyrchu ein proses asesu.
- **9 Tachwedd 2022:**

- Cafodd yr wybodaeth sy'n cael arian cyfatebol yn yr adran 'Paratoi eich cais' ei ddiweddarau i ddangos y gallwch gynnwys ffynonellau eraill o arian cyfatebol y tu hwnt i'r Loteri Genedlaethol.
- Ychwanegwyd gwybodaeth am sut y bydd ffurflenni cais llawn yn cael eu rhyddhau i ymgeiswyr am grantiau yn yr ystod £250,000 i £1 miliwn i'r adran 'Sut i wneud cais.'
- **28 Chwefror 2023:** Symudwyd y dudalen i raglenni caeedig.

# Nodiadau cymorth ymgeisio: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau)

[See all updates](#)

Mae'r canllaw ymgeisio yma ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gwneud cais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau), ar gyfer grantiau rhwng £30,000 a £250,000.

**Tudalen wedi'i chreu: 18 Awst 2022.**

Mae'n **rhaidd** i chi ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein ar gyfer grantiau o dan £250,000.

**Pwysig:** Mae **Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol** yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni rydyn ni'n eu cyflawni. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn y canllawiau isod gan fod angen ateb rhai cwestiynau mewn ffordd wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymgorffori yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn ymwneud â'r cyllid hwn.

## Camau cyntaf

1. Lansiwyd [porth cais newydd](#) ym mis Mawrth 2021. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar y porth bydd angen i chi gofrestru cyn cyflwyno.
2. Os na allwch sefydlu eich cyfrif neu'n wynebu unrhyw anawsterau technegol, cysylltwch â'r [investment-service-support@heritagefund.org.uk](mailto:investment-service-support@heritagefund.org.uk).
3. Unwaith y bydd eich sefydliad wedi cofrestru, cliciwch 'Dechrau Cais Newydd' a dewiswch y botwm 'Grantiau o £10,000 i £250,000'. Yna cliciwch ar 'Dechrau Cais Newydd'.
4. Os byddwch yn penderfynu copïo a gludo testun o ddogfen word yn uniongyrchol i'ch ffurflen gais, adolygwch eich cais cyn cyflwyno a gwneud newidiadau lle bo angen sicrhau nad ydych yn fwy na'r terfynau cyfrif geiriau a nodir. Byddwch chi'n gallu arbed y ffurflen hon wrth i chi weithio arni.

## Cwestiynau

## Eich prosiect

Dywedwch wrthym pa gyngor yr ydych wedi'i gael wrth gynllunio eich prosiect a chan bwy

Atebwch fel arfer.

**Ai dyma gais cyntaf eich sefydliad i ni?**

Atebwch fel arfer, 'ia' neu 'na'.

**Teitl y prosiect**

Cofiwch gynnwys y rhagddodiad **#NNF2** yn nheitl eich prosiect. Er enghraifft **#NNF2 gwelliannau gwarchodfa natur Dragonfly**.

**Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?**

Rhowch y dyddiad rydych chi'n disgwyl dechrau eich prosiect. Dylai hyn fod ar neu ar ôl **1 Ebrill 2023**.

Rhaid i'ch prosiect ddod i ben erbyn **31 Mawrth 2025**.

**Pam mae angen i'ch prosiect ddigwydd nawr?**

Atebwch fel arfer.

**A yw'r prosiect yn digwydd yn yr un lleoliad â chyfeiriad eich sefydliad?**

Atebwch fel arfer, 'ydy' neu 'nac ydy'.

Os na, cofiwch gynnwys manylion cyfeiriad eich prosiect.

**Disgrifiwch eich syniad**

Mewn dim mwy na 500 gair, eglurwch beth yw nod eich prosiect a beth fyddwch chi'n gwario'r arian arno. Dylech ddefnyddio'r ddau is-bennawd canlynol, yn dibynnu a yw eich prosiect yn gyfalaf, gwytnwch neu'r ddau.

Prosiectau Cyfalaf:

- Ar ba safle/eoedd fyddwch chi'n gweithio?
- Pa waith fyddwch chi'n ei wneud ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, cyhoedd cyffredinol, yn targedu cynulleidfaoedd)?

Prosiectau Gwytnwch:

- Pa waith fyddwch chi'n ei wneud yn ystod y prosiect (er enghraifft, pa weithgaredd cynllunio)?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, cyhoedd cyffredinol, yn targedu cynulleidfaoedd)?
- Sut bydd y gweithgaredd yn gwella/diogelu'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig nawr neu yn y dyfodol?

### **A fydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect?**

Ateb cwestiynau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf fel arfer, 'bydd' neu 'na'.

Dylech gyflwyno arolygon cyflwr a/neu ddogfennau/prydlesi perchnogaeth os oes gennych nhw.

### **Oes angen caniatâd unrhyw un arall i gyflwyno eich prosiect?**

Ateb fel arfer 'oes', 'nac oes' neu 'ddim yn si?'r'. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn ymwybodol o'r caniatâd a'r trwyddedau perthnasol, ac yn gweithio tuag at gael y caniatâd perthnasol a'r trwyddedau i gynnal y prosiect.

### **Pa wahaniaeth fydd eich prosiect yn ei wneud?**

Atebwch fel arfer.

### **A yw'r dreftadaeth yn cael ei hystyried mewn perygl?**

Atebwch fel arfer, 'ydy' neu 'nac ydy'.

Os ydyw, esboniwch sut mae'r dreftadaeth mewn perygl.

### **Oes gan y dreftadaeth unrhyw ddynodiadau ffurfiol?**

Dewiswch unrhyw opsiynau sy'n berthnasol i'ch treftadaeth o'r rhestr.

### **A yw eich prosiect yn cynnwys treftadaeth sy'n denu ymwelwyr?**

Atebwch fel arfer, 'ydy' neu 'nac ydy'.

### **Pam mae eich prosiect yn bwysig i'ch cymuned?**

Atebwch fel arfer.

### **Pa fesurau fyddwch chi'n eu cymryd i gynyddu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol?**

Dylai'r ateb hwn ganolbwyntio ar weithgaredd y tu allan i'r gwaith gwella eu hunain. Er enghraifft: teithio, caffael neu wastraff. [Darllenwch ein canllawiau cynaliadwyedd amgylcheddol am ragor o](#)



[wybodaeth.](#)

## **Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r prosiect ddod i ben?**

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw'r allbynnau ar ôl i'r prosiect ddod i ben, pa waith a pha ganiatâd fydd eu hangen. Ar gyfer gwaith cyfalaf, dylai hyn fod yn gysylltiedig â chynllun rheoli a chynnal a chadw. Os nad oes gennych gynllun ar hyn o bryd, gellir cynnwys hyn yn eich gweithgaredd prosiect.

## **Pam mae eich sefydliad yn y sefyllfa orau i gyflawni'r prosiect yma?**

Atebwch fel arfer.

## **A fydd eich prosiect yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth?**

Atebwch fel arfer, 'ydy' neu 'nac ydy'.

Os ydych yn ateb ydy, mae'n rhaid i chi atodi eich cytundeb partneriaeth a nodi y gellir gofyn i bartneriaid ffurfiol gofrestru ar gyfer ein telerau grant.

## **Canlyniadau**

Rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth yr ydym am ei wneud gyda'n cyllid trwy gyfres o naw canlyniad, sydd wedi'u rhestru yn y ffurflen gais. Mae canlyniadau yn newidiadau, effeithiau neu fuddion sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r cyllid hwn.

Y canlyniadau **gorfodol** ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau) yw:

- bydd ystod ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth
- bydd treftadaeth mewn gwell cyflwr

Mae'n **rhaid** i chi fynd i'r afael â'r **ddau ganlyniad** yn eich cais.

ydym yn disgwyl i ymatebion fod yn gymesur â faint o grant y gofynnir amdano.

Os yw'n berthnasol, efallai y byddwch hefyd yn ymateb i'r canlyniad hwn: **bydd y sefydliad a ariennir yn fwy gwydn**

## **Sut bydd eich prosiect yn cynnwys ystod ehangach o bobl?**

Dylai dy ateb esbonio sut bydd dy gynulleidfa neu broffil gwirfoddol wedi newid rhwng dechrau a diwedd y prosiect. Gall hyn gynnwys:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- gweithio gyda sefydliadau eraill i gyrraedd cynulleidfa oedd nas caniateir
- cynorthwyo unigolion newydd i'r sector trwy swyddi, hyfforddiant a/neu brentisiaethau

Dylech gynnwys tystiolaeth i gefnogi eich cynlluniau.

### **Sut fydd eich prosiect yn gwella cyflwr treftadaeth?**

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwella cyflwr y rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig, hyd yn oed os bydd hyn yn y dyfodol. Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cyflawni i wella'r ffordd y mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau yn cael eu rheoli.

Os nad yw eich prosiect yn digwydd yn uniongyrchol ar safle gwarchoddedig, esboniwch sut y bydd eich prosiect yn dod â gwerthoedd i'r rhwydwaith yn y tymor hir.

### **A fydd eich prosiect yn cyflawni unrhyw un o'n canlyniadau eraill?**

Gadewch yn wag, ni fyddwn yn asesu unrhyw ganlyniadau eraill ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau).

### **Rheoli eich prosiect**

#### **Sut fydd eich prosiect yn cael ei reoli?**

Atebwch fel arfer.

#### **Sut fyddwch chi'n gwerthuso eich prosiect?**

Rydym yn argymhell eich bod yn adeiladu gwerthusiad o ddechrau eich prosiect. Rydym wedi argymhell isafswm gwariant ar werthuso a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn o fewn ein [canllawiau gwerthuso](#).

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn disgwyl rhywfaint o adborth gwerthuso, mewn dwy ran:

- eich adroddiad gwerthuso eich hun, a anfonwyd i mewn cyn i ni dalu'r 10% olaf o'ch grant
- Holiadur gwerthuso, o fewn blwyddyn i'w gwblhau. Gallwch weld y wybodaeth y byddwn am i chi ei hadrodd yn ein [canllawiau gwerthuso](#).

#### **Sut ydych chi'n bwriadu cydnabod eich grant?**

As part of your grant from the Welsh Government, you must acknowledge your funding on social media, through press releases, and by displaying our partnership logo. Please read our [Welsh Government acknowledgement guidance](#).

Fel rhan o'ch grant gan Lywodraeth Cymru, rhaid i chi gydnabod eich cyllid ar y cyfryngau cymdeithasol, drwy ddatganiadau i'r wasg, a thrwy arddangos logo ein partneriaeth. Darllenwch ein canllaw [cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru](#).

#### **Dywedwch wrthym am unrhyw swyddi neu brentisiaethau y byddwch yn eu creu i gyflawni eich prosiect**

Atebwch fel arfer. Os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau, mae'n rhaid i chi atodi'r swydd ddisgrifiadau swydd perthnasol.

## Costau'r prosiect

Cyfeiriwch at yr adran [canllawiau ymgeisio](#) o'r enw 'Paratoi eich cais' i sicrhau bod costau eich prosiect yn gymwys. Os ydych yn gwneud cais am £250,000 neu fwy cyflwynwch [Mynegiant o Ddiddordeb](#) yn y lle cyntaf.

At ddibenion monitro, mae'n bwysig eich bod yn gwahaniaethu rhwng costau cyfalaf a refeniw yn eich tabl costau. I wneud hyn, rhowch nhw ar linellau ar wahân ac ychwanegu 'Cyf' neu 'Ref' at ddechrau pob disgrifiad cost. Er enghraifft, os ydych yn gwneud cais am £10,000 o ffioedd proffesiynol ar gyfer gwaith cyfalaf, a £5,000 o ffioedd proffesiynol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, dylai eich tabl edrych fel hyn:

	Enghraifft o dabl costau	
<b>Pennawd cost</b>	<b>Disgrifiad o'r gost</b>	<b>Cyfanswm</b>
Ffioedd proffesiynol CYF contractwyr ar gyfer adeiladu cuddfan adar		£10,000
Ffioedd proffesiynol REF gweithwyr llawrydd i gyflwyno rhaglen weithgaredd		£5,000

Mae'n bwysig nad yw'r costau rydych chi'n gofyn i ni eu talu yn gyfystyr â chymhorthdal anghyfreithlon i chi. Edrychwch ar adran 'Gwybodaeth Ychwanegol' o'r [canllawiau ymgeisio](#) am fanylion pellach.

## Cefnogaeth i'ch prosiect

### Ydych chi'n cael unrhyw gyfraniadau ariannol i'ch prosiect?

Atebwch fel arfer, 'ydym' neu 'nac ydym'.

Sylwer: Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau arian parod i brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd dau). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau ariannol rydych chi'n eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael ei ystyried wrth asesu.

### Ychwanegu cyfraniad heb arian parod

Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd dau). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod a ddarperir gennych ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael ei ystyried wrth asesu.

### Gwirfoddolwr

Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau gwirfoddol i brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd dau). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau gwirfoddol rydych yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael ei ystyried wrth asesu.

## Tystiolaeth o gefnogaeth

Atebwch fel arfer. Uwchlwythwch llythyrau, e-byst neu fideos o gefnogaeth fel y bo'n briodol ar gyfer eich prosiect.

## Dogfennau ategol

Mae'n rhaid uwchlwytho'r dogfennau ategol canlynol ar ddiwedd eich ffurflen gais. Dylai maint y ffeil fod yn llai na 20MB. Sylwch bod rhai o'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir ar y ffurflen gais ar-lein.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae angen y dogfennau canlynol:

- dogfen lywodraethol (gorfodol os oes gennych un)
- cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu dilysu (gorfodol os ydych chi'n sefydliad) – os ydych yn unigolyn, sefydliad sydd newydd ei ffurfio, neu os nad oes gennych gyfrifon diweddar, uwchlwythwch ddatganiadau banc am y tri mis llawn diwethaf
- cynllun prosiect (gorfodol) – [gallwch lawrlwytho templed o'n tudalen cynllun prosiect](#)
- briffiau ar gyfer gwaith comisiwn (os yn berthnasol)
- delweddau, gan gynnwys o leiaf un map yn dangos lleoliadau gwaith cyfalaf
- cyfrifo adfer costau llawn (os yn berthnasol)

# Nodiadau Cymorth Mynegi Diddordeb: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau)

### [See all updates](#)

Mae'r canllaw ymgeisio yma ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb (EOI) ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau), ar gyfer grantiau rhwng £250,000 a £1 miliwn.

**Tudalen wedi ei greu: 18 Awst 2022.**

Mae'n **rhaid** i chi ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen EOI ar-lein ar gyfer grantiau o £250,000 i £1m. **Os nad ydych yn cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb ni chewch wahoddiad i gyflwyno cais llawn.**

**Pwysig:** Mae **Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol** yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni rydyn ni'n eu cyflawni. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn y canllawiau isod gan fod angen ateb rhai cwestiynau mewn ffordd wahanol ar gyfer y rhaglen hon.

**Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymgorffori yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn ymwneud â'r cyllid hwn.

## Camau cyntaf

1. Lansiwyd [porth cais newydd](#) ym mis Mawrth 2021. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar y porth bydd angen i chi gofrestru cyn cyflwyno.
2. Os na allwch sefydlu eich cyfrif neu'n wynebu unrhyw anawsterau technegol, cysylltwch â'r [investment-service-support@heritagefund.org.uk](mailto:investment-service-support@heritagefund.org.uk).
3. os yw eich sefydliad wedi cofrestru, dewiswch 'Dechreuwch Ddatganiad o Ddiddordeb / Mynegiant o Ddiddordeb' a dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r ffurflen hon ar gyfer grantiau o £250,000 i £1m
4. rhowch enw i'ch prosiect gyda'r rhagddodiad **#NNF2**
5. Os byddwch yn penderfynu copïo a gludo testun o ddogfen word yn uniongyrchol i'ch ffurflen gais, adolygwch eich cais cyn cyflwyno a gwneud newidiadau lle bo angen sicrhau nad ydych yn fwy na'r terfynau cyfrif geiriau a nodir. Byddwch chi'n gallu arbed y ffurflen hon wrth i chi weithio arni.

## Cwestiynau

### Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth am eich syniad?

Os felly, dywedwch eu henw wrthym.

### Disgrifiwch yr hyn y byddwch chi yn ei wneud yn ystod y prosiect

Rhowch wybodaeth ychwanegol am y canlynol:

- A fydd eich prosiect yn gwella cyflwr a gwydnwch rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig Cymru, yn benodol cynefinoedd a rhywogaethau'r safleoedd?
- A fydd eich prosiect yn gwella hygyrchedd i'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig?
- A fydd eich prosiect yn gwella eich gwydnwch ac, felly, gallu'r dyfodol i reoli'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig?
- Ble a sut fydd y gwaith yn digwydd?
- Pa gymunedau fyddwch chi'n gweithio gyda nhw?

Terfyn geiriau 200.

### Oes gennych chi deitl i'r prosiect?

Cofiwch gynnwys y rhagddodiad **#NNF2** yn nheitl eich prosiect. Er enghraifft **#NNF2** gwelliannau i warchodfa natur Mayfly

### Pa ganlyniadau ydych chi am eu cyflawni?

Mae canlyniad yn ganlyniad i'r hyn mae eich prosiect yn ei wneud. Y canlyniadau gorfodol ar gyfer Rhwydweithiau Natur (rownd dau) yw:

- bydd ystod ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth
- treftadaeth mewn gwell cyflwr

Ewch i'r afael â'r ddau ganlyniad hyn.

## **Bydd ystod ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth**

Esboniwch sut bydd eich cynulleidfa neu broffil gwirfoddolwr wedi newid yn ystod y prosiect. Gall hyn gynnwys:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- gweithio gyda sefydliadau eraill i gyrraedd cynulleidfaoedd nas caniateir
- cefnogi unigolion newydd i'r sector trwy hyfforddi a phrentisiaethau

Dylech gynnwys tystiolaeth i gefnogi eich cynlluniau.

## **Bydd treftadaeth mewn gwell cyflwr**

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwella cyflwr y rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig, hyd yn oed os bydd hyn yn y dyfodol. Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cyflawni i wella'r ffordd y mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau yn cael eu rheoli.

Os nad yw eich prosiect yn digwydd yn uniongyrchol ar safle gwarchoddedig, dangoswch y gwerth y bydd eich prosiect yn ei roi i'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig yn y tymor hir.

Terfyn geiriau 200.

## **Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect**

Ar gyfer y rhaglen hon, mae treftadaeth yn cyfeirio at y rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig. Dylech esbonio sut mae eich prosiect yn cysylltu â'r rhwydwaith (er enghraifft, enwau safle penodol a chyfeiriadau grid a/neu bobl/sefydliadau sy'n eu rheoli) a pham ei bod yn bwysig (ar gyfer bioamrywiaeth/bywyd gwyllt a phobl).

Terfyn geiriau 100.

## **Beth yw'r angen am y prosiect yma?**

Pa waith rydych chi wedi ei wneud sy'n dangos manteision posib y prosiect?

Terfyn geiriau 200.

## **Pa mor hir ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?**

Dylai eich prosiect ddechrau ar ôl **1 Ebrill 2023**. Mae'n rhaid ei gwblhau erbyn **31 Mawrth 2026**.

Terfyn 50 gair.

## **Faint mae'r prosiect yn debygol o'i gostio?**

Os ydych chi'n gwybod, dywedwch wrthym am y costau pwysicaf. Gellir amcangyfrif y costau hyn.

Terfyn geiriau 200.

## Faint o arian ydych chi'n bwriadu ymgeisio amdano?

£ [rhowch gyfanswm]

Mae'n rhaid i chi wneud cais am rhwng £250,000 ac £1m. Os ydych angen llai o arian, defnyddiwch ein ffurflen gais a'r [nodiadau cymorth ar gyfer grantiau o dan £250,000](#).

## Pryd ydych chi'n debygol o gyflwyno cais am arian, os gofynnir i chi wneud hynny?

Nodwch fod y gronfa hon yn wahanol i'n grantiau safonol, felly nid oes angen ceisiadau cyfnod datblygu a dosbarthu ar wahân. Mae'n rhaid i'ch cais llawn gael ei gyflwyno erbyn **7 Rhagfyr 2022**.

Terfyn 50 gair.

# Canllaw derbyn grant: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau)

[See all updates](#)

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y byddwch yn derbyn eich grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau). Mae hefyd yn esbonio beth rydyn ni'n ei ddisgwyl gennych chi.

**Atodiad**

**Maint**

[Grantee Outstanding Permissions Template](#) 3.97 KB

**Tudalen wedi'i chreu: 18 Awst 2022.**

## Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar dderbyn grant Cronfa Rhwydweithiau Natur, rydym yn edrych ymlaen at eich helpu i ddarparu prosiect llwyddiannus.

Arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw'r arian y byddwch yn ei dderbyn, ac oherwydd hynny mae'n rhaid i ni sicrhau ei fod yn cael ei reoli mewn modd atebol. Mae hyn yn golygu bod nifer o brosesau y mae angen i chi eu dilyn drwy gydol oes eich prosiect. Rydym yn ceisio gwneud y rhain yn gymesur â faint o grant rydych chi'n ei dderbyn.

Rydym yn gwerthfawrogi efallai mai dyma'r tro cyntaf i chi dderbyn cyllid gennym, ac efallai y byddwch yn ansicr sut i ofyn am eich grant a rhoi gwybod i ni am eich cynnydd. Mae'r dudalen hon yn esbonio beth i'w wneud a bydd yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Mae hefyd yn nodi

ein harferion safonol, ond nodwch y gallwn ddewis amrywio ein prosesau yn dibynnu ar amgylchiadau penodol eich prosiect.

## Gweithio gyda ni

Rydyn ni'n hoffi gweithio mewn ffordd gydweithredol, felly cadwch mewn cysylltiad â ni os oes angen ein cefnogaeth arnoch. Eich pwynt cyswllt cyntaf gyda'r Gronfa Treftadaeth yw'r person a enwir yn eich e-bost hysbysu. Gwahoddwch ni i ddigwyddiadau ac agoriadau prosiect allweddol a byddwn yn anelu at anfon cynrychiolydd lle bo modd, i ddangos ein cefnogaeth i'ch prosiect.

Rydym yn disgwyl i chi ymateb yn amserol i unrhyw geisiadau am wybodaeth a thrafod unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect gyda ni. Mae'n rhaid i chi fynd i'r afael ag unrhyw faterion yr ydym yn eu hadnabod drwy gydol eich prosiect. Byddwn yn cynnal archwiliadau o bryd i'w gilydd i gadarnhau eich bod yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn eich cais a'r dibenion cymeradwy a nodir yn eich llythyr hysbysu grant.

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r contract grant, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ad-daliad rhannol neu'ch holl grant.

## Gair i gall

- peidiwch â dechrau eich prosiect cyn i ni roi caniatâd i chi
- gwerthuswch eich prosiect o'r dechrau
- cadwch olwg ar wariant eich prosiect
- cadwch olwg ar amserlen eich prosiect
- cadwch bob anfoneb a derbynneb wedi'u trefnu
- sicrhewch eich bod yn adnabod eich dibenion cymeradwy
- adolygwch a dysgwch o'r hyn rydych chi'n ei wneud
- gwnewch yn si?r eich bod yn siarad â ni am unrhyw faterion
- cadwch dystiolaeth prosiect, er enghraifft o lansiadau, gweithdai a hyrwyddo
- yn anad dim arall, mwynhewch eich prosiect!

## Dogfennau pwysig

Rydym yn argymhell eich bod yn ymgyswrtu â'r dogfennau canlynol cyn cychwyn ar eich prosiect:

- contract grant
- Canllawiau ymgeisio Cronfa Rhwydweithiau Natur ar ein gwefan
- [Gwerthuso: Canllawiau Arferion Da](#)

Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn adrannau [canllawiau arferion da](#) y wefan.

Rydym hefyd yn argymhell bod pawb sy'n ymwneud yn agos â chyflwyno eich prosiect yn dod yn gyfarwydd â'r cais a gyflwynwyd gennych i ni. Yn benodol, dylent ddeall y canlyniadau a'r dibenion cymeradwy yr ydych wedi ymrwmo i'w cyflawni.



# Rhoi dechrau arni

## Grantiau o £30,000-£250,000

Bydd angen i chi [fewngofnodi i'r porth grantiau](#) er mwyn cytuno i'r contract grant. Mae'n rhaid i chi:

- Gwiriwch fod y manylion sydd gennym am eich prosiect yn gywir a dywedwch wrthym a oes unrhyw newidiadau i'ch prosiect ers i chi wneud cais am y tro cyntaf.
- Anfonwch unrhyw dystiolaeth newydd i ni ar gyfer eich prosiect, gan gynnwys:
  - copi o ddatganiad banc diweddar, slip talu neu siec
  - cynllun monitro ar gyfer pob safle prosiect
  - prawf o gyllid partneriaeth
  - prawf dogfennol o berchnogaeth eiddo gan gynnwys er enghraifft copïau diweddaraf o gofrestr teitl y Gofrestrfa Tir (gyda chynllun), prydlesau a thystiolaeth o unrhyw forgeisi presennol
  - prawf o unrhyw ganiatadau neu drwyddedau statudol angenrheidiol
  - rhagolwg llif arian prosiect
- darllen telerau ac amodau'r grant a Thelerau Grant Safonol
- ddweud wrthym fanylion dau arwyddwr cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad, fel y gallwn anfon dolen atynt er mwyn lawrlwytho, darllen, arwyddo ac uwchlwytho'r telerau ac amodau

Unwaith y byddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, gan gynnwys eich telerau ac amodau wedi'u llofnodi, byddwn yn anfon e-bost atoch i'ch hysbysu y gallwch ddechrau'r prosiect.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich contract grant wedi'i lofnodi a thystiolaeth o fewn tri mis o gael gwybod am eich dyfarniad grant. Os na fyddwch yn derbyn y caniatâd, y trwyddedau neu'r caniatâd perthnasol ymhen tri mis, cysylltwch â'ch Rheolwr Buddsoddi i gael cyngor.

## Grantiau o £250,000-£1miliwn

Bydd angen i chi fewngofnodi i'r porth grantiau er mwyn gweithio drwy'r broses Caniatâd i Ddechrau. Mae'n rhaid i chi:

- Cwblhewch y ffurflen Caniatâd i Ddechrau, gan gynnwys dweud wrthym a oes unrhyw newidiadau i'ch prosiect ers i chi wneud cais cyntaf.
- Gwiriwch fod y manylion sydd gennym am eich prosiect yn gywir.
- Anfonwch unrhyw dystiolaeth newydd i ni ar gyfer eich prosiect, gan gynnwys:
  - copi o ddatganiad banc diweddar, slip talu neu siec
  - cynllun monitro ar gyfer pob safle prosiect
  - prawf o gyllid partneriaeth
  - prawf dogfennol o berchnogaeth eiddo gan gynnwys er enghraifft copïau diweddaraf o gofrestr teitl y Gofrestrfa Tir (gyda chynllun), prydlesau a thystiolaeth o unrhyw forgeisi presennol
  - prawf o unrhyw ganiatadau neu drwyddedau statudol angenrheidiol
  - rhagolwg llif arian prosiect

- Darllenwch delerau ac amodau'r grant a Thelerau Grant Safonol
- Lawrlwythwch eich ffurflen Caniatâd i Ddechrau wedi ei gwblhau a llwythwch gopi wedi'i lofnodi. Dylai gael ei lofnodi gan y person sy'n cwblhau'r ffurflen, dau arwyddwr cyfreithiol ar gyfer y sefydliad (gall un ohonynt fod yr un person a gwblhaodd y ffurflen), a phartneriaid prosiect os yw'n berthnasol. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich ffurflen Caniatâd i Ddechrau a thystiolaeth o fewn tri mis o gael gwybod am eich dyfarniad grant. Os na fyddwch yn derbyn y caniatâd neu'r trwyddedau perthnasol ymhen tri mis, cysylltwch â'ch Rheolwr Buddsoddi i gael cyngor.

## Taliadau eich grant

Bydd taliad yn cael ei roi i'r cyfrif banc a nodir yn eich ffurflen Cais Caniatâd i Ddechrau a Thalu.

### Grantiau o dan £100,000

Telir eich grant mewn tri rhandaliad yn seiliedig ar y canrannau canlynol:

- **50%:** Unwaith rydyn ni wedi rhoi Caniatâd i Ddechrau.
- **40%:** Unwaith y gallwch chi roi tystiolaeth bod 50% o gyfanswm costau'r prosiect wedi'u gwario.
- **10%:** Unwaith y bydd eich prosiect wedi'i gwblhau.

### Grantiau mwy na £100,000

Byddwn yn talu eich grant mewn ôl-ddyledion unwaith y byddwch yn gallu darparu anfonebau neu dderbynebau sy'n dangos eich gwariant prosiect. Byddwn yn cytuno ar amserlen daliadau gyda chi ar ddechrau eich prosiect, a bydd taliadau'n cael eu gwneud wrth i'r prosiect fynd rhagddo, yn amodol arnoch chi'n darparu tystiolaeth o wariant.

Bydd angen i chi ddefnyddio'r ffurflen Cais am Daliad i ofyn am daliad eich grant. Fel arfer rydym yn disgwyl i Adroddiad Cynnydd gael ei gyflwyno gyda'r Ffurflen Cais am Daliad er mwyn derbyn taliad o'ch grant, gan y byddwn ond yn rhyddhau taliadau ar ôl bod yn fodlon â chynnydd eich prosiect.

### Yr holl grant

Rydym yn atal y 10% olaf o'ch grant nes bod y prosiect wedi'i gwblhau. Byddwn ond yn talu'r 10% yn llawn os:

- mae cyfanswm y costau a gytunwyd wedi eu gwario a
- rydych chi wedi cwblhau a chyflwyno eich Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol, gan gynnwys dangos dystiolaeth o gyfanswm costau eich prosiect

### Canran y taliad

Byddwn yn talu cyfran o'r costau yr ydych wedi'u hysgwyddo yn seiliedig ar ganran y taliad a nodwyd yn eich llythyr hysbysu am grant. Felly os ydych yn darparu anfonebau gwerth £50,000 a'ch canran dalu yw 85%, eich taliad grant fydd £42,500.

Os ydych yn gwario llai na'ch costau y cytunwyd arnynt a bod eich prosiect yn cwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw grant nad yw wedi'i wario i ni. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gostau eich prosiect cyffredinol a chanran y taliad a nodwyd yn eich llythyr hysbysu am grant. Gweler adran 'Cwblhau'r adroddiad a'r cais talu terfynol' o'r ddogfen hon am fanylion pellach ynghylch sut mae talu prosiectau tanbaid yn cael ei gyfrifo.

## Cyflwyno'r prosiect

### Dyddiad y daw'r grant i ben

Mae'n rhaid i chi gwblhau eich prosiect a chyflwyno eich Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol erbyn y Dyddiad y Daw'r Grant i Ben:

- Mae gan brosiectau sydd â grantiau o £30,000-£250,000 ddyddiad y daw'r grant i ben ar 31 Mawrth 2025.
- Mae gan brosiectau gyda grantiau o £250,000-£1 miliwn ddyddiad y daw'r grant i ben ar 31 Mawrth 2026.

Ni allwn roi estyniadau i'r amserlen hon. Os yw eich prosiect mewn perygl difrifol o beidio â chwblhau, efallai y byddwn yn cau eich prosiect yn gynnar ac yn gofyn am ad-daliad pob un neu ran o'ch grant, felly trafodwch gyda ni ar yr amser cynharaf posibl.

### Cydnabod eich Grant Cronfa Rhwydweithiau Natur

Mae cydnabod eich grant yn un o amodau'r contract grant. Mae'n rhaid i chi gydnabod Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Treftadaeth ym mhob deunydd print a digidol rydych yn eu cynhyrchu, er enghraifft, ar ymgynghoriad cyhoeddus neu wybodaeth neu ddeunyddiau codi arian. Mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys y logos ar bob dyluniad neu gynllun rydych chi'n eu cynhyrchu, ar bob adroddiad neu arolwg arbenigol, ac ar bob dogfen dendro neu hysbyseb swydd sy'n cael eu hariannu gan eich grant.

Rydym yn eich annog i ddatblygu cynigion neu hyrwyddiadau arloesol a chreadigol sydd wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth o'n cyllid. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn ymgyrchoedd i'r wasg neu ddigwyddiadau yn cydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru i'ch sefydliad a'ch prosiect.

Dysgwch [sut i gydnabod eich grant](#). Os na fyddwch yn cydymffurfio â'n canllawiau cydnabod rydym yn cadw'r hawl i roi'r gorau i wneud taliadau ac i ofyn am ad-daliad rhywfaint neu'r cyfan o'ch grant.

### Caffael: ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr

Ym mhob prosiect, pryd bynnag y byddwch yn defnyddio eich grant i brynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau, byddwn yn gofyn i chi roi manylion am yr ymgynghoriad caffael i ni (sef y broses o

brynu, tendro a dewis). Os ydych eisoes wedi prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar gyfer eich prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut wnaethoch chi hynny. Ni allwn dalu eich grant os nad ydych wedi dilyn y weithdrefn a amlinellir isod.

Dylech bob amser ystyried cydraddoldeb triniaeth, tryloywder, cydnabyddiaeth gydfuddiannol a chymesuredd wrth gaffael unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau.??

Os ydych chi'n grantî corff cyhoeddus neu os yw eich prosiect yn destun deddfwriaeth caffael cyhoeddus, yna mae'n rhaid i chi ddilyn y ddeddfwriaeth berthnasol.???

Mae'n rhaid i weithdrefnau i recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth berthnasol. Dylai ffioedd ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr neu weithwyr proffesiynol eraill rydych chi'n eu recriwtio yn ystod y prosiect fod yn unol â chanllawiau proffesiynol a bod yn seiliedig ar fanyleb ysgrifenedig glir. Os oes cysylltiad rhwng unrhyw un o'r contractwyr, cyflenwyr neu ymgynghorwyr yr hoffech eu penodi - er enghraifft, os ydynt yn ffrindiau agos neu'n berthnasau, neu os oes ganddynt unrhyw gyswllt ariannol, fel perchnogaeth – bydd angen i chi gael ein caniatâd ysgrifenedig yn gyntaf.?

Os nad ydych yn si?r ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i gymryd cyngor proffesiynol neu gyfreithiol.

### **O dan £10,000?**

Os ydych yn prynu nwyddau, gweithiau neu wasanaethau i lai na £10,000 nid oes angen i chi dendro'n agored ar gyfer y rhain neu gael sawl dyfyniad. Byddwn yn dal i ddisgwyl i chi ddangos gwerth cyffredinol am arian.

### **Rhwng £10,000 a £50,000? ?**

Mae'n rhaid i chi gael o leiaf dri dyfyniad cystadleuol ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau gwerth £10,000 neu fwy (heb gynnwys TAW) yr ydym wedi cytuno i'w hariannu.??

Nid oes o reidrwydd angen penodi'r contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfyniad isaf. Wrth benderfynu pwy i benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth cyffredinol am arian mae'r dyfyniad yn cyflwyno a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd.??

### **Mwy na £50,000?**

Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (heb gynnwys TAW), mae'n rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol. Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau rydych chi wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad i'w dderbyn.??

Nid oes o reidrwydd angen penodi'r contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfyniad isaf. Wrth benderfynu pwy i benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth cyffredinol am arian mae'r dyfyniad yn cyflwyno a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd.??

## **Pan nad oes angen tendr cystadleuol**

Mewn rhai amgylchiadau, nid oes angen i chi wneud trefn dendro gystadleuol a gallwch wahodd un sefydliad yn unig i dendr. Dyma lle:

- mae cyfanswm pris y contract yn llai na £10,000
- mae cytundeb fframwaith mewn lle ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau sydd wedi eu tendro'n gystadleuol o'r blaen, ac mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn uniongyrchol berthnasol i gwmpas y gwaith prosiect
- mae contract prosiect ar waith, sydd wedi cael ei dendro'n gystadleuol yn y gorffennol, ac mae'n rhesymegol ymestyn i gwmpasu gwaith prosiect ychwanegol. Yn yr achos hwn mae'n rhaid i chi gadarnhau:??
- yn achos gwaith cyfalaf gellir defnyddio prisiau'r rhan fwyaf o elfennau gwaith, gan gynnwys rhagarweiniau, gorbenion ac elw yn uniongyrchol o'r contract presennol i'r gwaith newydd mae'r gwaith newydd yn llai o ran graddfa, ac mae o fath tebyg i brif waith y contract ni fydd y contractwr yn hawlio tarfu na chost ymestyn i'r prif contract os yw'r gwaith newydd yn cael ei gyflwyno  
mae'r contract presennol yn cyfyngu ar waith sy'n cael ei wneud gan eraill
- yn achos gwaith cyfalaf gellir defnyddio prisiau'r rhan fwyaf o elfennau gwaith, gan gynnwys rhagarweiniau, gorbenion ac elw yn uniongyrchol o'r contract presennol i'r gwaith newydd
- mae'r gwaith newydd yn llai o ran graddfa, ac mae o fath tebyg i brif waith y contract
- ni fydd y contractwr yn hawlio tarfu na chost ymestyn i'r prif contract os yw'r gwaith newydd yn cael ei gyflwyno
- mae'r contract presennol yn cyfyngu ar waith sy'n cael ei wneud gan eraill
- nid yw'r cwmni sy'n darparu'r tendr sengl wedi'i gysylltu, naill ai drwy berchnogaeth neu drwy gysylltiadau teuluol, gydag uwch gynrychiolwyr y grantî

## **Gwerthoedd cymdeithasol**

Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried gwerthoedd cymdeithasol yn eich caffael, gan gynnwys:

- cadwyni cyflenwi amrywiol?
- cyflogadwyedd a sgiliau gwell?
- cynhwysiant, iechyd meddwl a llesiant
- cynaliadwyedd amgylcheddol?
- cadwyni cyflenwi diogel?

## **Byddwch yn ymwybodol o'n gofyniad trwydded ddigidol**

Dylech sicrhau bod unrhyw gontractwr/cyflenwr/ymgyngorydd a allai gyfrannu at greu allbynnau digidol yn ymwybodol o'n gofyniad am brosiectau i rannu'r rhain o dan drwydded Ryngwladol Attribution 4.0 Creative Commons neu gyfwerth, a sicrhau bod gennych gytundeb ar gyfer y gwaith sy'n deillio o hynny i'w rannu fel hyn. Pan nad yw hynny'n bosibl, mae'n rhaid i chi geisio cytundeb ysgrifenedig i wneud trefniadau amgen gyda ni, er enghraifft defnyddio Trwydded Agored amgen, cyn cyhoeddi unrhyw gontract gwaith.

## Recriwtio staff

Mae'n rhaid hysbysebu pob swydd staff gyda'r eithriadau a ganlyn:

- Os oes gennych aelod o staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres rydych yn symud i'r swydd a grëwyd gan eich prosiect.
- Os oes gennych aelod o staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres y mae ei oriau'n ymestyn fel y gallant weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost eu horiau ychwanegol a dreulir ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym am y rôl y byddant yn ei chyflawni.

Efallai y byddwn yn gofyn am weld tystiolaeth o'r weithdrefn recriwtio a ddilynwyd gennych, felly cadwch y cofnodion hyn yn ddiogel.

Os ydych yn symud aelod o staff presennol i swydd a grëwyd gan y prosiect, yna gallwn naill ai dalu am gost yr aelod o staff hwn, neu am gost ad-dalu eu swydd, pa bynnag gost sydd yn llai. Mae ôl-lenwi lle mae gweithiwr yn cael ei neilltuo i swydd newydd ac mae eu safle'n cael ei lenwi dros dro gan weithiwr arall.

Os ydych yn dymuno penodi unrhyw aelodau staff newydd ar eich prosiect sydd â chysylltiad ag unrhyw aelodau o staff yn eich sefydliad, er enghraifft, unrhyw ffrindiau agos, perthnasau, neu gyn-aelodau staff, bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym yn gyntaf.

Dylai pob cyflogau fod yn seiliedig ar ganllawiau'r sector neu swyddi tebyg mewn mannau eraill.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol a chynaliadwy. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio cyfradd Cyflog Byw (a Chyflog Byw Llundain lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer holl staff y prosiect.

## TAW

Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill, felly eich cyfrifoldeb chi yw gofyn am gyngor priodol.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau lle rydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

Os ydych chi'n gwario llai ar TAW nag yr ydych wedi amlinellu yn yr adran costau prosiect o'ch cais, gallwch, gyda'n caniatâd, drosglwyddo'r tanwariant i bennawd cost arall os dangosir angen clir. Bydd angen i chi ddangos sut mae'r newidiadau hyn

## Dogfennau ategol

Mae'n bwysig bod dogfennau rydych chi'n eu cyflwyno drwy'r prosiect yn ddarllenadwy ac yn cael enwau sy'n disgrifio eu cynnwys yn ddefnyddiol. Wrth gyflwyno anfonebau, dylid cyfuno'r rhain yn un ffeil a'u nodi yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr hawliad. Dylai sganiau fod mewn monocrom yn ddelfrydol (du a gwyn neu raddfa lwyd) gan y bydd y rhain yn ffeiliau llai ac yn caniatáu ichi atodi mwy.

Dylai pob dogfen fod ar ffurf PDF, ac eithrio taenlenni a ddylai fod yn eu fformat gwreiddiol.

## **Cofnod ffotograffig**

Rydym yn disgwyl i chi gasglu lluniau drwy gydol eich prosiect sy'n dangos eich cynnydd y dylech ei gyflwyno gyda'ch Adroddiad Cynnydd (lle bo hynny'n berthnasol). Bydd angen i chi ddarparu cofnod ffotograffig o'ch prosiect gyda'ch Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol. Dylai hyn gynnwys o leiaf pum delwedd ddigidol cydraniad uchel mewn fformat electronig sy'n dangos gwahanol agweddau ar eich prosiect.

Dylai'r delweddau ddangos eich prosiect ar waith a'i ganlyniad. Bydd angen i chi ddarparu sampl o ddelweddau sy'n dangos eich prosiect cyn, yn ystod ac ar ôl iddo gael ei orffen. Wrth lenwi eich Adroddiad Cynnydd a'ch Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol, gallwch roi gwybod i ni os oes deunydd o'ch prosiect ar gael ar y rhyngwyd a lle mae modd dod o hyd iddo.

Efallai y byddwn yn gwneud defnydd o'ch delweddau mewn deunydd cyhoedduswydd. Rydych chi'n rhoi'r hawl i ni ddefnyddio'r rhai rydych chi'n eu darparu i ni ar unrhyw adeg, gan gynnwys eu newid. Mae'n rhaid i chi gael yr holl ganiatâdau sydd eu hangen ar eich cyfer chi a ni i wneud defnydd ohonynt cyn i chi eu defnyddio neu eu hanfon atom.

Dylai'r delweddau hyn, ynghyd ag allbynnau digidol eraill o'ch prosiect, gael eu rhannu gyda thrwydded agored hefyd (Creative Commons Attribution 4.0 International). Os nad chi yw'r deiliad hawliau, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych gytundeb i rannu'r delweddau hyn o dan y drwydded agored benodedig hon.

Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn casglu caniatâd ysgrifenedig priodol gan unrhyw un sy'n ymddangos yn y delweddau hyn y gellir eu haildefnyddio mewn perthynas â chyhoedduswydd a deunyddiau hyrwyddo, ac y gellir eu rhannu ar-lein o dan y drwydded agored benodedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae delweddau'n cynnwys pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed a lle mae'n rhaid gofyn am ganiatâd penodol ymlaen llaw. Os oes angen unrhyw arweiniad arnoch ar hyn, siaradwch â ni.

Os nad yw eich delweddau'n addas i'w rhannu o dan drwydded agored, bydd angen rhoi trefniadau eraill yn eu lle. Siaradwch â ni cyn gynted â phosibl.

## **Cynllun Grantiau Cymunedol**

Fel rhan o'ch prosiect, efallai eich bod wedi gofyn i ni gyfrannu tuag at bot o arian sydd wedi'i glustnodi y gallwch ei ddefnyddio i ariannu grwpiau/sefydliadau eraill (yr ydym yn eu galw'n Derbynwyr Grant Cymunedol) i ddarparu prosiectau arwahanol bach (Grantiau Cymunedol).

Bydd y Grantiau Cymunedol hyn yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich prosiect. Mae'n rhaid i unrhyw grantiau fel hyn ddangos gwerth da am arian, a dylai budd cyhoeddus orbwyso unrhyw elw preifat.

Byddwch yn rheoli'r pot ariannu, datblygu proses ymgeisio gyda phanel penderfynu ac yn monitro cynnydd. Mae'n rhaid rhoi cyhoedduswydd i'r cynllun Grant Cymunedol gennych hefyd, felly mae'n hysbys ac yn agored i bawb.

Efallai y byddwch am wneud taliadau Grantiau Cymunedol i berchnogion trydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat) ar gyfer gweithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at sicrhau canlyniadau prosiect. Os mai chi yw'r prif ymgeisydd, rydych chi'n gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau'r prosiect penodol yn cael eu cyflawni gan dirfeddianwyr trydydd parti (y Derbynwyr Grant Cymunedol) a bod y contract grant yn cael ei gydymffurfio â hi, gan gynnwys ad-dalu'r grant os oes angen.

Dylid ffurfioli hyn trwy gytundebau trydydd parti sy'n diffinio'r canlyniadau sydd i'w cyflawni ar dir trydydd parti. Dylent hefyd sicrhau rheolaeth a chynnal gwaith cyfalaf o ddyddiad disgwylidig cwblhau'r gwaith tan 10 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Dylai hyn fod yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'r Derbynwyr Grant Cymunedol.

Mae'r ddolen hon yn cynnwys mwy o wybodaeth am ddarparu [Cynllun Grant Cymunedol](#) a Chwestiynau Cyffredin.

## **Diweddarau ni ar eich prosiect**

Wedi i ni gadarnhau bod gennych ganiatâd i ddechrau, nid oes angen i chi gyflwyno unrhyw ffurflenni pellach nes eich bod yn barod i hawlio ail randaliad eich grant.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl ynghylch unrhyw broblemau neu faterion arwyddocaol sy'n codi yn ystod eich prosiect fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys materion a allai arwain at newidiadau mewn costau, oedi difrifol, neu fethu â chyflawni'r dibenion a'r canlyniadau cymeradwy. Rhowch wybod ymlaen llaw i ni am unrhyw ddigwyddiadau a'n diweddarau ar unrhyw lwyddiannau a straeon newyddion da.

## **Newidiadau i'r prosiect**

Ni allwch newid dibenion cymeradwy eich prosiect heb ein cytundeb ysgrifenedig blaenorol. Os ydych chi am i ni ystyried unrhyw newidiadau i'ch dibenion cymeradwy, mae'n rhaid i chi anfon manylion ysgrifenedig atom am y rhesymau dros y cais ac egluro sut y bydd yn effeithio ar:

- ansawdd a chanlyniadau eich prosiect
- cost eich prosiect
- yr amser y mae angen i chi gwblhau eich prosiect
- hyfywedd eich prosiect yn y dyfodol

Yna, gallwn ail-asesu'r prosiect neu gymryd unrhyw gamau eraill yr ydym yn ystyried eu bod yn angenrheidiol. Mae'n bosib y byddwn yn rhoi caniatâd i'r newid dim ond os ydych yn cytuno i gadw at delerau ac amodau ychwanegol.

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt â ni fod yn ysgrifenedig a dylid hefyd roi gwybod amdanynt yn eich Adroddiad Cynnydd a/neu Adroddiad Gorffen a ffurflen Cais Terfynol am Daliad.

## **Newidiadau i'r gyllideb**



Mae eich llythyr hysbysu grant yn cynnwys costau'r prosiect a gytunwyd fel rhan o'ch grant. Dylid rhoi gwybod am yr holl arian sy'n cael ei wario ar y prosiect yn erbyn y penawdau cost hyn.

Os oes angen i chi wneud mân newidiadau a symud arian rhwng y penawdau cost hyn er mwyn cyflawni eich dibenion cymeradwy gallwch roi gwybod am hyn yn eich Adroddiad Cynnydd. Mae'n rhaid i chi ddangos sut gwnaeth y newidiadau hyn eich helpu i gyflawni eich prosiect.

Mae'n rhaid i chi gysylltu â ni ymlaen llaw os ydych am gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r penawdau costau hyn ac am unrhyw wariant mawr yn eich arian wrth gefn. Nodwch fod rhaid i bob newid fod o fewn y terfynau cyfalaf/refeniw a osodir gan Lywodraeth Cymru yn y canllawiau ymgeisio. Dylai tua 90% o gyfanswm costau'r prosiect fod yn gyfalaf. Mae hyd at 10% o gyllid refeniw ar gael i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r prosiect.

Os ydych yn gwario llai na'ch costau y cytunwyd arnynt a bod eich prosiect yn cwblhau o dan y gyllideb, byddwn yn addasu eich taliad terfynol yn unol â hynny ac efallai y bydd angen i chi ddychwelyd rhywfaint o'ch grant i ni. Gweler adran 'Adroddiad Cwblhau a Chais Terfynol y Taliad' o'r dudalen hon am fanylion am sut mae hyn yn cael ei gyfrifo.

Os bydd cyfanswm cost y prosiect yn cynyddu yn ystod y prosiect, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cynyddu eich grant. Yn yr achos hwn bydd yn rhaid i chi ddarparu rhagor o wybodaeth.

## Cwblhau eich prosiect

Unwaith y bydd eich prosiect wedi ei gwblhau, bydd rhaid i chi gyflwyno'r Ffurflen Adroddiad Gorffenedig a'r ffurflen Cais Am Daliad Terfynol. Bydd y ffurflen hon yn caniatáu i chi hawlio taliad terfynol eich grant (hyd at 10%). Rydym yn argymhell eich bod yn gwneud hyn cyn gynted ag y gallwch chi gasglu'r holl wybodaeth at ei gilydd a thra bod y prosiect yn dal i fod yn ffres yn eich meddwl.

Mae'n **rhaid** i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno erbyn y dyddiad y daw'r prosiect i ben. Os na fyddwn yn derbyn yr adroddiad yn yr amserlen hon, mae'n bosibl y byddwn yn atal eich taliad terfynol neu'n gofyn am ad-dalu rhywfaint neu'ch holl grant.

Trwy gwblhau rydyn ni'n golygu:

- mae eich prosiect wedi gorffen, ac rydych wedi cyflawni eich dibenion cymeradwy
- rydych wedi dilyn ein canllaw cydnabyddiaeth y Gronfa Rhwydweithiau Natur drwy gydol y prosiect
- mae gennych dystysgrif gwblhau ymarferol neu gyfatebol (ar gyfer prosiectau sydd wedi gwneud gwaith cyfalaf)
- gallwch gyflenwi ffotograffau prosiect digidol cydraniad uchel a phrawf o gydnabyddiaeth o'n cyllid
- rydych wedi rhestru allbynnau digidol y prosiect ac wedi darparu cyfeiriad gwe (URL) y wefan neu'r gwefannau lle gellir mynd atynt

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais terfynol am Grant, ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau pellach am daliadau gennych. Felly, dylech gytuno ar eich cyfrifon terfynol gyda'ch

contractwyr a'ch cyflenwyr cyn i chi wneud cais am y taliad grant terfynol.

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi ar gyfnodau ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau gan gynnwys drwy ein harolygon cwsmeriaid.

## **Prosiectau sy'n cwblhau o dan y gyllideb**

Os ydych yn gwario llai na'ch costau y cytunwyd arnynt a bod eich prosiect yn cwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw grant nad yw wedi'i wario i ni. Os yw'r tanwariant yn llai na 10% o'ch grant byddwn yn addasu taliad terfynol eich grant yn unol â hynny. Os yw'r tanwariant yn fwy na 10% o'ch grant bydd angen i chi ddychwelyd y grant sydd heb ei wario atom trwy sic neu drosglwyddiad BACS (mae manylion banc ar gael ar gais). Bydd eich taliad terfynol yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gostau eich prosiect cyffredinol a chanran y grant a nodwyd yn eich llythyr hysbysu grant.

Os bydd eich prosiect yn cwblhau o dan gyllideb, mae'n rhaid i chi gadw'r terfynau cyllideb a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y canllawiau ymgeisio. Dylai tua 90% o gyfanswm costau'r prosiect fod yn gyfalaf. Mae hyd at 10% o gyllid refeniw ar gael i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r prosiect.

# **Cwestiynau Cyffredin: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau).**

[See all updates](#)

Atebion i gwestiynau a godwyd gan fynychwyr ein gweminar cyngor a'n gweithdy cyn ymgeisio.

**Diweddardwyd y dudalen ddiwethaf: 9 Tachwedd 2022.** Gweler yr holl ddiweddariadau ar waelod y dudalen.

## **Meini Prawf Cymhwysedd**

**A all ein sefydliad wneud cais am ddau brosiect ar unwaith, ac a fydd gwneud hynny'n effeithio ar ein siawns o lwyddo ar gyfer pob prosiect?**

Gallwch gyflwyno mwy nag un cais. Byddwn yn ystyried eich gallu i gyflawni fel rhan o'r asesiad. Mae'n broses gystadleuol, felly rydym yn argymhell eich bod yn canolbwyntio ar y brif flaenoriaeth ar gyfer eich sefydliad oherwydd fe allech chi gystadlu â chi'ch hun yn y pen draw.

## **Blaenoriaethau**

**Mae'r cynllun yn nodi ei fod ar gyfer gweithgareddau ar y rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig neu'r ardaloedd cyfagos. Beth yw eich diffiniad o**

## **'ardaloedd amgylchynol' i gydymffurfio â'r grant? A yw Rhwydweithiau Natur (rownd dau) yn ymwneud â safleoedd gwarchoddedig yn unig?**

Mae'r grantiau hyn wedi'u cynllunio i gymryd agwedd hyblyg at ecosystemau / rhywogaethau. Y nod yw gwella cyflwr a chysylltedd y rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig, ond rydym yn cydnabod y gall ecosystemau / rhywogaethau gael eu lledaenu ar draws ardaloedd ehangach.

Rhwydwaith ecolegol cydnerth yw un lle mae cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu rheoli ar raddfa tirwedd fel bod gan gynefinoedd a rhywogaethau ddigon o le i ffynnu a chyda chysylltiadau lluosog. Gallai 'ardaloedd amgylchynol' gynnwys coridorau tirwedd, parthau clustogi neu barthau camu sy'n cysylltu â, ac yn ffurfio cysylltiadau rhwng, safleoedd gwarchoddedig, y bydd eu cyflwr neu reolaeth well o fudd i wydnwch y rhwydwaith ehangach. Mae angen i chi wneud yr achos dros sut y bydd y rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig yn elwa yn y pen draw yn eich cais.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at Gyfoeth Naturiol Cymru [Canllaw i ymarferwyr ar rhwydweithiau ecolegol cadarn](#) a mapiau o rwydweithiau cynefinoedd a all helpu i nodi lleoliadau priodol ar gyfer gweithredu.

## **A oes dyraniad cyllid sefydlog fesul ardal, neu a yw'n seiliedig ar ansawdd y cais?**

Nid oes dyraniad sefydlog fesul ardal. Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau o ansawdd da nag y gallwn eu hariannu, byddwn yn ystyried cydbwysedd y ceisiadau ar draws daearyddiaeth.

## **A yw cais llai yn fwy tebygol o gael ei ddyfarnu?**

Ceir manylion am sut y byddwn yn asesu prosiectau ar [dudalen canllawiau ymgeisio'r Gronfa Rhwydweithiau Natur \(rownd dau\)](#). Rydym yn ceisio amrywiaeth o ddyfarniadau o faint, felly bydd cais llai yn cael ei farnu yn ôl ei rinweddau ei hun.

## **A allwch wneud cais i adfer mawndir y gallai un diwrnod gael ei gynnwys yn y cod mawndir a chredydau carbon sy'n cael eu gwerthu i dalu am waith cynnal a chadw yn y dyfodol?**

Gallai Rhwydweithiau Natur ariannu costau sy'n ymwneud â dilysu cynllun arddull Talu am Wasanaethau Ecosystem (PES). Mae angen dilysu cynlluniau credyd carbon fel y cod mawndiroedd cyn adfer. Felly dylai ymgeiswyr wirio bod cynigion yn cyd-fynd â chod mawndiroedd gan mai dim ond rhai mathau o adfer mawndir sy'n gymwys. Cysylltwch [NPAP@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:NPAP@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) cyn eich cais am gyngor pellach ac i sicrhau y dilynir arfer gorau.

## **A fyddai cysylltiadau â safleoedd dynodedig eraill yn dderbyniol ee Safleoedd Bywyd Gwyllt/Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig?**

Blaenoriaeth y gronfa hon yw gwella'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig. Byddai angen i chi wneud yr achos dros gysylltiadau eraill ond gellid eu cynnwys fel rhan o brosiect ehangach.

## **A yw'r gronfa'n cwmpasu Safleoedd Bywyd Gwyllt/Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd wedi'i dynodi'n ddaearegol?**

Byddai SoDdGA sydd wedi'u dynodi'n ddaearegol yn iawn gan y bydd yn debygol y bydd ganddynt nodweddion neu gynefinoedd naturiol cysylltiedig. Dylai eich prosiect ganolbwyntio ar y dreftadaeth naturiol.

## **Yn yr amgylchedd morol sut ydych chi'n diffinio 'cymunedau' i ymgysylltu â nhw?**

Mae rhai heriau ymarferol i brosiectau morol, ond mae astudiaethau achos da ar gael ar gyfer hyn. Rydym yn awyddus i weld camau sy'n gwella ardal y môr ond sydd hefyd yn ennyn diddordeb cymunedau. Mae'n dibynnu ar natur eich prosiect. Mae llawer o gymunedau difreintiedig ar hyd yr arfordir sydd bron byth yn cael mynediad na chysylltu ag ef. Does dim rhaid i ymgysylltu ddigwydd yn y fan a'r lle neu ar y safle.

## **Oes modd defnyddio'r prosiect i ddatblygu perthnasoedd gyda safleoedd newydd ar gyfer ein gweithgareddau neu mae'n rhaid i berthynas â safleoedd fod ar waith yn barod?**

Mae'n dibynnu beth hoffech chi ei wneud gyda'r partneriaethau hynny ac a oes costau'n gysylltiedig â hyn. Os oeddech chi'n ei fframio fel rhan o agwedd gwytnwch ar brosiect, yna dylech gael digon o amser i ddatblygu'r perthnasoedd hyn. Os ydych chi'n disgwyl perfformio gwaith cyfalaf ar y safleoedd hyn, mae angen cytundeb arnom ymlaen llaw felly efallai nad oes gennych amser i gyflawni'r elfennau hyn. Byddwn yn ystyried y risg hon wrth asesu eich prosiect.

## **Dywed y canllawiau na allwn wneud cais am grant i gwmpasu gwaith sy'n dod o fewn ein rhwymedigaethau statudol. Sut rydym yn sicrhau bod ein prosiect yn gymwys ac nad yw'n gyfystyr â'n cyfrifoldebau statudol presennol o dan Adran 6?**

Nid yw adran 6 yn atal Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill rhag gwneud cais am gyllid i gefnogi'r dyletswyddau hynny. Rydym wedi cynnwys y cymal hwn yn ein canllawiau i sicrhau nad yw ymgeiswyr yn gwneud cais am gyllid dwbl ar gyfer gwaith y mae'n ofynnol iddynt ei wneud eisoes. Cyhyd â bod eich cais ar gyfer gweithgaredd prosiect ychwanegol yna dylai fod yn gymwys mewn perthynas â'r cymal hwn.

## **Costau Cymwys**

### **A allwch egluro faint o grant y gall fod ar gyfer costau refeniw?**

Yn wahanol i rownd un, nid oes rhaniad penodol ar gyfer costau Cyfalaf a Refeniw ar gyfer rownd dau y Gronfa Rhwydweithiau Natur. Gwnewch gais am y costau sydd eu hangen ar eich prosiect.

## **Mae darparu cyfalaf ar gyfer safleoedd morol gwarchoddedig yn hynod o anodd a'r hyn sydd ei angen yw refeniw i ddylanwadu ar y pwysau ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. A ellir defnyddio arian ar gyfer hyn?**

Mae grantiau ar gael ar gyfer gweithgarwch uniongyrchol ac ymgysylltu ar safleoedd. Ni allwch ddefnyddio arian ar gyfer gweithgarwch lloio.

## **A all prosiectau fod yn gyfan gwbl refeniw, er enghraifft cynnal gweithgareddau, hyfforddiant a gwyddoniaeth dinasyddion? Neu a oes angen iddynt hefyd gynnwys gwelliannau ffisegol i safleoedd?**

Gall prosiectau fod yn gwbl seiliedig ar refeniw/gweithgaredd. Dylai'r gwaith arwain at welliannau uniongyrchol i'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig, a rhaid i'ch cais gyflwyno'r achos dros sut y cyflawnir hyn drwy'r gweithgareddau.

## **A ellir defnyddio cyllid ar gyfer rolau staff presennol yn ogystal ag ar gyfer rolau ôl-lenwi?**

Gellir cefnogi rolau staff presennol trwy Adennill Costau Llawn.

## **A oes modd talu ffermwyr yn uniongyrchol am waith ar eu fferm?**

Mae ffermwyr yn gymwys i wneud cais am y cyllid. Os mai chi yw'r prif ymgeisydd byddech yn cael eich talu'n uniongyrchol. Os ydych yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliad arall sef y prif ymgeisydd, byddai angen i chi anfonebu'r prif ymgeisydd. Ceir rhagor o fanylion am sut y telir grantiau ar [dudalennau gwe Derbyn Grant ar y Gronfa Rhwydweithiau Natur \(rownd dau\)](#).

## **A oes modd defnyddio'r arian i brynu cerbydau o dan y pennawd 'Offer', lle byddai hyn yn hwyluso gwaith cydgysylltiedig rhwng safleoedd?**

Oes, mae hon yn gost gymwys. Rydym yn eich annog i ystyried cynaliadwyedd, gwerth am arian a'r hyn a fydd yn fwyaf cost effeithlon i'ch sefydliad.

## **Faint o ogwydd sydd rhwng y costau a osodir mewn Mynegiant o Ddiddordeb neu gais yn erbyn y costau wrth gyflawni mewn gwirionedd? Mae'n rhaid amcangyfrif llawer o gostau ar hyn o bryd.**

Mae amcangyfrif yn iawn ar gyfer Mynegiant o Ddiddordeb. Deallwn fod eich costau yn cael eu hamcangyfrif ar hyn o bryd felly edrychwn ar swm y ffigyrau a gyflwynwyd. Byddem ond yn bryderus pe bai'r ffigyrau yn newid yn sylweddol. Wrth ei gyflwyno, rydym yn caniatáu ychydig o drugaredd o gostau eich cais, ond rydym yn tueddu i beidio â gadael i gostau gweithgaredd gael eu symud i gostau cyfalaf, neu i'r gwrthwyneb. Dyma sgwrs i'w chael gyda'ch Rheolwr Buddsoddi yn ystod eich cyflwyno prosiect.

## **Yn y cyfnod ansicr yma, sut dylen ni ystyried chwyddiant yn y dyfodol yn ein cyllideb prosiect?**

Mae'r amrywiaeth eang o brosiectau y byddwn yn eu hariannu drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn golygu nad oes ateb un-maint-i-bawb i'w ystyried mewn chwyddiant. Dylai eich cyllideb gynnwys amcangyfrif gorau o'r costau gan gynnwys chwyddiant. Mae canllawiau ar sut i gyfrifo chwyddiant, gan gynnwys modelau darogan, sydd ar gael ar y rhyngwyd.

## **Paratoi eich Cais**

### **A oes unrhyw ofyniad am wariant cyfartal ymhlith blynyddoedd y prosiectau ?**

Nid yw hyn yn ofyniad. Rydym yn gofyn am ddogfen llif arian cyn i'ch prosiect ddechrau er mwyn deall eich ceisiadau am daliadau grant ar draws y prosiect.

### **A yw cyfrifon yn orfodol ar gyfer pawb?**

Na, nid oes angen cyfrifon ar gyfer pob ymgeisydd. Er enghraifft, nid oes angen i awdurdodau lleol ddarparu cyfrifon. Os nad ydych fel arfer yn cynhyrchu cyfrifon wedi'u harchwilio, gallwn dderbyn cyfrifon wedi'u gwirio (wedi'u llofnodi a'u dyddio) gan lofnodwyr ariannol yn eich sefydliad. Os nad oes gennych y rhain, rhowch ddatganiadau banc sy'n cwmpasu'r tri mis diwethaf.

### **Os yw prosiect yn debygol o dderbyn arian cyfatebol ond heb wneud hynny eto, pa mor gynnar ddylen nhw wneud cais am y cyllid arall yma?**

Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl i brosiect gael eu cyllid cyfatebol yn ei le erbyn iddynt ddechrau cyflawni eu prosiect. Os nad yw eich cyllid cyfatebol yn ei le, bydd disgwyl i'ch sefydliad ei warantu.

### **Pa fathau o gytundebau sydd eu hangen arnoch chi i weithio ar dir nad ydyn ni'n berchen arno?**

Gall cytundebau tirlfeddiannwyr gymryd sawl ffurf wahanol. O leiaf, mae angen cytundeb gyda phob tirlfeddiannwr sy'n eu harwyddo hyd at delerau'r grant a hyd y grant, gyda rolau a chyfrifoldebau clir, pa faes fydd yn cael ei orchuddio, a chamfeydd eraill yn ôl ein telerau grant.

Os ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth, byddai angen i'r ddwy ochr ddod â rhywbeth at y bwrdd a gweithio ar y cyd. Dylai eich cytundeb partneriaeth adlewyrchu hyn. Fel arall, os ydych chi ond yn gweithio ar dir sefydliad arall, mae angen i'r tirlfeddiannwr gytuno i chi gynnal gwaith ar eu tir.

Nid oes angen i'r cytundebau hyn fod ar waith ar y pwynt cyflwyno cais, ond byddwn yn ffactor y risg hon i asesu eich cais. Ystyriwch y gallai'r oedi y bydd cael y cytundebau yma yn eu lle achosi.

## **Rhaglen Rhwydweithiau Natur**

## **Pe bai gennym arian Rhwydweithiau Natur Rownd un a ydym yn llai tebygol o gael cyllid Rhwydweithiau Natur Rownd dau?**

Nid yw derbyn grant yn rownd un yn golygu eich bod yn anghymwys i wneud cais ar gyfer rownd dau. Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau o ansawdd da nag y gallwn eu hariannu, byddwn yn ceisio ariannu prosiectau sy'n cynrychioli gwasgariad daearyddol drwy Gymru benbaladr, a bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o safleoedd rownd un.

## **A allwch egluro'r gyllideb gyffredinol?**

Y gyllideb ar gyfer rownd dau yw £9.6miliwn.

## **Ydy arian Cronfa Treftadaeth 'arferol' dal ar gael ar gyfer prosiectau amgylcheddol yng Nghymru neu ai Cronfa Rhwydweithiau Natur yw'r unig lwybr? A oes modd cysylltu ceisiadau Cronfa Rhwydweithiau Natur â phrosiectau eraill Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol?**

Mae arian loteri dal ar gael ar brosiectau amgylcheddol yng Nghymru. Ni ellir defnyddio prosiectau Cronfa Rhwydweithiau Natur fel arian cyfatebol ar gyfer ceisiadau/prosiectau eraill y Loteri.